# Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

**2018 dccc 3**

*Cydsyniad Gweinidogion Cymru i is-ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas cyfraith yr UE*

## 15 Cydsyniad Gweinidogion Cymru i gymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth

(1) Cyn cymeradwyo neu gadarnhau is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, rhaid i un o Weinidogion y Goron, neu unrhyw berson arall (ac eithrio Gweinidogion Cymru) y mae'r swyddogaeth o gymeradwyo neu gadarnhau'r ddeddfwriaeth wedi ei rhoi iddo, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfwriaeth os yw—

- (a) amodau 1, 2 a 3 wedi eu bodloni, a
- (b) amod 4 neu 5 wedi ei fodloni.

(3) Amod 1 yw bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys o ran Cymru (pa un a yw'r ddarpariaeth yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio) ac sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

(4) Amod 2 yw bod y ddarpariaeth y cyfeirir ati yn amod 1 yn dod, neu y byddai wedi dod, o fewn cwmpas cyfraith yr UE fel y mae'n cael effaith ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym.

(5) Amod 3 yw bod yr is-ddeddfwriaeth i'w gwneud gan berson ac eithrio Gweinidogion Cymru o dan swyddogaeth a arferir drwy offeryn statudol.

(6) Amod 4 yw bod yr is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo neu ei chadarnhau o dan swyddogaeth a roddir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym.

(7) Amod 5 yw—

- (a) bod yr is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo neu ei chadarnhau o dan swyddogaeth a addesir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym, a

(b) bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys y math o ddarpariaeth y mae'r addasiad yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol neu y mae'r addasiad yn gymwys iddo.

(8) Addesir swyddogaeth at ddibenion is-adran (7) os, o ganlyniad i addasiad i ddeddfiad—

(a) yw'r is-ddeddfwriaeth y mae'r swyddogaeth yn gymwys iddi yn gallu cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig na allai ei chynnwys yn flaenorol, neu

(b) yw'r swyddogaeth yn gymwys i is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig nad oedd yn gymwys iddi yn flaenorol.

(9) At ddibenion yr adran hon, mae swyddogaeth o gymeradwyo yn cynnwys swyddogaeth o roi cydsyniad.